

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhwch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr / Chief Executive's Directorate
Deialu uniongyrchol / Direct line /: 01656 643148 / 643694 / 643513
Gofynnwch am / Ask for: Gwasanaethau Democrataidd

Ein cyf / Our ref:
Eich cyf / Your ref:

Dyddiad/Date: Dydd Mercher, 14 Hydref 2026

Annwyl Cyngorydd,

CYNGOR

Cynhelir Cyfarfod Cyngor Hybrid yn Siambr y Cyngor - Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB / o bell drwy Microsoft Teams ar **Dydd Mercher, 21 Hydref 2026** am **16:00**.

AGENDA

1 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.

2 Datganiadau o fuddiant

Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.

3 Cymeradwyaeth Cofnodion

I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 23/09/2026.

7 - 16

4 I dderbyn cyhoeddiadau oddi wrth:

- (i) Maer (neu'r person sy'n llywyddu)
- (ii) Prif Weithredwr

5 Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

Ffon/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/SMS Messaging: 07581 157014 Twitter@bridgendCBC

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnwidd testun: Rhwch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Test relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croseawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhwch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.

6	<u>Diweddariad Chwarter 2 y Rhaglen Gyfalaf 2026-27</u>	17 - 36
7	<u>Hunanasesiad 2025/26</u>	37 - 120
8	<u>Ceisiadau Maes Tref a Phentref</u>	121 - 124
9	<u>Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:</u>	

Y Cynghorydd M Hughes at yr Aelod Cabinet dros Adfywio a Thai

Ar adeg o angen dwys a digynsail am dai yn ein cymunedau, mae'n destun pryder bod yna leiniau o dir gyda chaniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad preswyl sy'n cael eu gadael yn segur am gyfnodau rhy hir. Yn rhai achosion, mae lleiniau adeiladu yn cael eu gadael i ddirywio hyd nes eu bod yn troi'n adfeilion. Un enghraifft yn fy ward fi y hun, Dwyrain Maesteg, yw safle hen Gapel Libanus yn Heol Pen-y-bont. Yn yr achos hwn, rhoddwyd caniatâd i ddatblygu pedwar tŷ yn wreiddiol ym mis Rhagfyr 2018 ac wedyn cafodd ei adnewyddu ym mis Medi 2024. Mae ei gyflwr wedi dirywio'n ddrwg dros y blynyddoedd. Rwyf wedi bod mewn cysylltiad â'n Tîm Gorfodi Cynllunio yn rheolaidd ynglŷn â'r mater hwn, a chaf fy sicrhau bod pawb yn gwneud eu gorau i symud pethau ymlaen.

Fy nghwestiwn i felly i Aelod y Cabinet dros Adfywio a Thai yw faint o safleoedd – a'r nifer cysylltiedig o unedau preswyl posibl - sydd yna yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr, er iddynt gael caniatâd cynllunio ar y dechrau'n deg, yn dal heb ddechrau cael eu datblygu o fewn yr hyn y byddai'r Adran Rheoli Datblygu yn ei ystyried yn gyfnod derbynol o amser?

10 Hysbysiad o Gynnig a gynigiwyd gan y Cynghorydd

Cynigiwyd gan y Cynghorydd J Gebbie

Adfer Ymddiriedaeth y Cyhoedd Drwy Fecanwaith Galw'n Ôl i Gynghorwyr yng Nghymru

Mae'r Cyngor hwn yn nodi:

1. Mae ymddiriedaeth y cyhoedd mewn gwleidyddiaeth wedi ei hadeiladu ar atebolrwydd, tryloywder ac uniondeb.
2. Mae Llywodraeth Cymru, yn briodol, wedi ceisio cryfhau safonau moesegol mewn llywodraeth leol drwy Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'r Fframwaith Safonau Moesegol.
3. Er gwaethaf y diwygiadau hyn, mae cynghorwyr yng Nghymru yn parhau i fod wedi eu heithrio rhag unrhyw fecanwaith galw'n ôl statudol, hyd yn oed pan fo camymddygiad difrifol wedi niweidio hyder y cyhoedd y tu hwnt i adferiad.
4. Mae Aelodau Seneddol yn ddarostyngedig i Ddeddf Galw ASau yn Ôl 2015, sy'n galluogi etholwyr, mewn amgylchiadau rhagnodedig, i greu deiseb am isetholiad yn dilyn camymddygiad difrifol.
5. Nid oes diogelwch democrataidd cyfatebol yn bodoli ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, er bod cynghorwyr yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar drigolion bob dydd, gan gynnwys y dreth gyngor, cynllunio, addysg, tai, gofal cymdeithasol, datblygu economaidd a diogelwch cymunedol.
6. Mae'r anghysondeb hwn yn creu diffyg democrataidd lle mae gan etholwyr fwy o bwerau i ddal Aelodau Seneddol i gyfrif nag sydd ganddynt i ddal y cynghorwyr sy'n eu cynrychioli'n lleol.

7. Nid yw cryfhau atebolrwydd democrataidd yn ymwneud â gwanhau llywodraeth leol— mae'n ymwneud â chryfhau hyder y cyhoedd yn y rhai sydd wedi cael eu hethol i wasanaethu.

Mae'r Cyngor hwn yn credu:

1. Dylai pob cynrychiolydd etholedig barhau i fod yn atebol i'r rhai a'i hetholodd drwy gydol ei gyfnod yn y swydd.
2. Mae swydd gyhoeddus wedi'i seilio ar ymddiriedaeth, a phan fo'r ymddiriedaeth honno wedi' ei thorri'n sylfaenol trwy gamymddygiad difrifol, dylai'r etholwyr gael y cyfle i benderfynu a yw'r unigolyn hwnnw'n parhau i'w cynrychioli.
3. Mae mwyafrif llethol y cynghorwyr yn gwasanaethu gyda gonestrwydd ac ymroddiad, a byddai mecanwaith galw'n ôl statudol yn gwella, yn hytrach na lleihau, hyder y cyhoedd mewn democratiaeth leol.
4. Mewn amgylchiadau statudol, wedi eu diffinio'n glir, yn unig y dylai unrhyw broses galw'n ôl fod yn berthnasol, gyda mesurau diogelwch cadarn i atal ymgyrchoedd dibwys, blinderus neu â chymhelliant gwleidyddol.

Felly mae'r Cyngor hwn yn penderfynu:

1. Galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth sy'n sefydlu mecanwaith galw'n ôl statudol ar gyfer cynghorwyr yng Nghymru.
2. Gofyn i ddeddfwriaeth o'r fath ddarparu i ddeisebau galw'n ôl gael eu sbarduno mewn amgylchiadau sydd wedi eu diffinio'n glir yn unig, gan gynnwys euogfarnau troseddol difrifol neu sancsiynau sylweddol a osodwyd dan y Fframwaith Safonau Moesegol.
3. Ysgrifennu at y Prif Weinidog, Ysgrifennydd y Cabinet sy'n gyfrifol am Lywodraeth Leol, Llywydd y Senedd, holl Aelodau'r Senedd sy'n cynrychioli Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gofyn am eu cefnogaeth i'r diwygiad democrataidd hwn.
4. Gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fabwysiadu cyflwyno mecanwaith galw'n ôl statudol ar gyfer cynghorwyr fel blaenoriaeth polisi cenedlaethol.

Mae'r Cyngor yn datgan ymhellach:

Nid yw democratiaeth yn dod i ben ar ddiwrnod y pleidleisio. Braint a ymddiriedir gan bobl leol yw swydd gyhoeddus, nid hawl a gedwir waeth beth fo'r ymddygiad. Pan fydd camymddygiad difrifol yn dinistrio hyder y cyhoedd, ni ddylai cynrychiolwyr etholedig allu cuddio y tu ôl i fandad pum mlynedd. Yn yr amgylchiadau eithriadol hynny, nid gyda gwleidyddion y dylai'r dyfarniad terfynol orffwys, ond gyda'r etholwyr. Felly mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl Cymru yn cael yr un hawl ddemocrataidd i ddal eu cynrychiolwyr lleol i gyfrif ag sydd eisoes yn bodoli ar gyfer Aelodau Seneddol.

11 Materion Brys

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Bydd hwn yn gyfarfod Hybrid a bydd Aelodau a Swyddogion mynychu trwy Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr / o bell Trwy Timau Microsoft. Bydd y cyfarfod cael ei recordio i'w drosglwyddo drwy wefan y Cyngor. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643148 / 643694 / 643513 / 643159

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol

Dosbarthiad:

Cynghorwr:

S Aspey

H T Bennett

A R Berrow

F D Bletsoe

S J Bletsoe

JPD Blundell

E L P Caparros

N Clarke

O Clatworthy

RJ Collins

HJ David

C Davies

C L C Davies

P Davies

S Easterbrook

M J Evans

N Farr

P Ford

J Gebbie

W R Goode

RM Granville

H Griffiths

S J Griffiths

GC Haines

D T Harrison

M L Hughes

D M Hughes

RM James

P W Jenkins

M R John

M Jones

W J Kendall

M Lewis

J Llewellyn-Hopkins

RL Penhale-Thomas

J E Pratt

R J Smith

JC Spanswick

I M Spiller

T Thomas

JH Tildesley MBE

A Ulberini-Williams

G Walter

A Wathan

AJ Williams

HM Williams

I Williams

MJ Williams

R Williams

E D Winstanley

T Wood